# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Maes-y-felin Care Home LTD**

**Cartref Gofal Maes-y-Felin**
**DREFACH**
**LLANYBYDDER**
**SA40 9YB**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/01/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Lleolir Maes-y-Felin ym mhentref Drefach. Mae digon o leoedd parcio yno ac mae'r safle wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gofal a llety ar gyfer hyd at 19 o bobl.

Maes y Felin Care Home Limited yw darparwr y gwasanaeth. Nalini Parmar yw'r unigolyn cyfrifol sy'n goruchwylio'r gwasanaeth. Mae rheolwr sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, ac fe'i cefnogir gan ddirprwy reolwr ac uwch-dîm o staff.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Gall y bobl fwynhau bywyd o ansawdd uchel o ganlyniad i wasanaeth trefnus iawn. Mae'r gofal a'r cymorth a ddarperir yng Nghartref Gofal Maes-y-Felin yn dda. Mae'r bobl yn cael eu trin â chynhesrwydd a charedigrwydd gan y tîm rheoli a thîm o staff ymroddedig, sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o'u hanghenion a beth sy'n bwysig iddynt. Mae'r tîm rheoli yn weladwy, yn ymatebol, ac yn hawdd mynd ato. Mae'r staff yn cael eu harwain yn dda, eu cefnogi a'u hyfforddi i gyflawni eu rôl. Gwelsom fod y staff yn ofalgar, yn sylwgar, yn ymgysylltu ac yn ymateb i anghenion y bobl. O ganlyniad, roedd tystiolaeth bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r bobl. Mae ymrwymiad cadarn i'r gymuned leol a'r Gymraeg. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithlon ar gyfer y bobl sy'n cael gofal a chymorth.

### 2. Gwelliannau

Dyma'r arolygiad cyntaf a gynhaliwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016. Caiff unrhyw welliannau eu hystyried yn ystod yr arolygiad nesaf.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi'r camau gweithredu y mae angen i ddarparwyr y gwasanaeth eu cymryd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (RISCA) 2016. Ni chyflwynwyd unrhyw ofynion na hysbysiadau diffyg cydymffurfio yn dilyn yr arolygiad hwn.

## 1. Llesiant

### Ein canfyddiadau

Caiff llesiant y bobl ei wella gan eu bod yn cael gofal mewn amgylchedd croesawgar, cyfforddus a diogel sy'n diwallu eu hanghenion. Gwelsom fod y bobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd glân, cartrefol ac sydd wedi'i bersonoli. Roedd y staff yn parchu dewisiadau'r bobl ynghylch ble yr hoffent dreulio eu hamser, boed mewn lolfeydd cymunedol neu eu hystafelloedd gwely. Gwelsom y gallai'r bobl ddewis ble roeddent am dreulio eu diwrnod, yng nghwmni eraill neu yn eu hystafelloedd eu hunain os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Rydym o'r farn bod y bobl yn byw mewn amgylchedd cartref sy'n eu helpu i gyflawni eu llesiant yn y ffordd orau bosibl.

Roedd y staff yn darparu gofal a chymorth da a gynllunnir gyda'r unigolyn. Roedd hyn yn cynnwys cael gafael ar gymorth gofal iechyd ychwanegol. Roedd amrywiaeth o weithgareddau a oedd o ddiddordeb i'r bobl a gallent ddewis sut roeddent am dreulio eu hamser. Roedd arweinyddiaeth y cartref yn gryf iawn, gyda'r staff yn ymwybodol o faterion atebolrwydd ac ethos y gwasanaeth. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn rhoi canllawiau clir er mwyn i'r staff ddeall eu rôl a sut y dylent ddarparu gofal a chymorth. Down i'r casgliad fod y bobl yn derbyn gofal a chymorth da, yn cael y cyfle i aros yn iach ac yn egnïol, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon.

Mae hwn yn wasanaeth sy'n gwerthfawrogi ac yn parchu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Gwelsom fod dogfennaeth, a oedd yn cynnwys y datganiad o ddiben a'r canllaw gwybodaeth, ar gael yn Gymraeg. Clywsom aelodau o'r staff yn siarad yn ddwyieithog a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn siarad eu dewis iaith. Roedd cysylltiadau cryf rhwng y cartref a'r gymuned leol, ac roedd llawer o'r bobl a'r staff yn adnabod ei gilydd. Dywedodd y dirprwy reolwr wrthym fod y Gymraeg yn bwysig iawn, a gwelsom fod hyn wedi'i adlewyrchu yn arferion goruchwylio'r staff. Gall y gweithiwr gofal wrando a thawelu meddyliau yn newis iaith y bobl. Rydym o'r farn y caiff llesiant y bobl ei wella gan eu bod yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

Caiff y bobl gefnogaeth i leisio eu barn a deall eu hawliau. Gwelsom boster yn hysbysebu fforwm a oedd i'w gynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg er mwyn trafod 'hawliau, rheolaeth a'ch llais'. Gwelsom fod copi o Ddatganiad Hawliau Pobl Hŷn wedi'i arddangos. Gwnaethom ddarllen ymatebion pobl i holiaduron sicrhau ansawdd a nodwyd bod camau gweithredu wedi'u datblygu yn seiliedig arnynt. Rydym o'r farn bod y bobl yn cael cefnogaeth i ddeall eu hawliau a bod ganddynt lais o ran y gofal a'r cymorth a gânt.

Mae systemau ar waith i ddiogelu’r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Roedd gwybodaeth ar gael i'r bobl o ran sut i godi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau i leihau'r risg o niwed, ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y staff yn cael hyfforddiant er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth i godi pryderon. Roeddent hefyd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu pobl rhag

camdriniaeth. Roedd polisi diogelu'r gwasanaeth wedi'i adolygu ac roedd ar gael i'r staff. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall y bobl fod yn hyderus eu bod yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a rhoddir gwybodaeth iddynt am sut i godi pryderon.

## 2. Gofal a Chymorth

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth o safon uchel. Roedd pob un o'r bobl y cawsom sgwrs â nhw a'u perthnasau yn canmol y gwasanaeth a ddarperir gan y staff ym Maes-y-Felin. Ymhlith y sylwadau roedd, "*I have absolute peace of mind, the continuity of care really comes in to its own.*" Nodwyd yn arbennig yr amser y gall y staff dreulio gyda'r bobl yn tawelu eu meddyliau ac yn darparu gofal personol. Roedd y ddogfennaeth yn annog y staff i ddod i adnabod y bobl, a threulio amser i'w galluogi i ddeall safbwynt hwn a'r llall. Dywedodd perthnasau wrthym fod y gofal a ddarparwyd gan y staff wedi gwella iechyd corfforol ac iechyd emosiynol eu perthynas, a nodwyd bod yr unigolyn yn llai gorbryderus ac yn teimlo'n ddiogel. Bu modd inni gadarnhau gwelliannau o ran iechyd y croen drwy ddarllen nodiadau gofal yr unigolyn. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel a bod y ffaith eu bod yn adnabod y staff yn dda yn rhoi tawelwch meddwl iddynt. Caiff y gofal a'r cymorth eu darparu gan staff gofal ymroddedig. Roedd y rhyngweithio rhwng y bobl a'r gweithwyr gofal yn gadarnhaol. Mae'r asesiadau risg a'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn cael eu hadolygu o fewn y terfynau amser gofynnol. Gallwn ddod i'r casgliad bod modd i'r bobl ddisgwyl safon uchel o ofal a chymorth gan dîm o staff ymroddedig.

Caiff y bobl eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom fod cynlluniau personol yn fanwl, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn adlewyrchu anghenion cymorth cyfredol y bobl. Cedwir cofnodion amser real yn electronig a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Gall y staff weld cynlluniau personol ar ddyfeisiau llaw. Dangosodd y dystiolaeth a welsom fod y bobl yn rhan o'r broses o gynllunio ac adolygu eu gofal a'u cymorth yn barhaus. Gwelsom fod y staff yn ymateb i anghenion y bobl. Gall hyn ddigwydd am fod systemau cyfathrebu effeithiol ar waith o fewn y cartref. Er enghraifft, gwelsom aelod o'r staff yn edrych ar gofnodion electronig er mwyn darparu cyfrif manwl o ofal nos unigolyn ac, felly, bu modd i'r perthynas wneud penderfyniad gwybodus am gynlluniau ar gyfer y diwrnod. Nodwyd bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn y cynlluniau personol a ddarllenwyd yn briodol ac yn cyfateb i ethos y gwasanaeth. Er enghraifft, "*maintain a sense of self hood* " a "*be aware of the impact of spatial awareness*". Yn ein barn ni, caiff y bobl eu cefnogi gan dîm gofal a all gael gafael ar wybodaeth berthnasol a phriodol er mwyn galluogi canlyniadau cadarnhaol.

Caiff y bobl fudd o ddeiet amrywiol ac maent yn gallu gwneud dewisiadau mewn perthynas â'u prydau. Cawsom sgwrs fanwl â'r cogydd a darllenwyd y fwydlen pedair wythnos. Trafodwyd opsiynau a dewisiadau'r bobl. Nodwyd bod cryn dipyn o'r bwyd wedi'i goginio'n ffres, ac roedd yn cynnwys ffacbys a bran. Roedd y bobl a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn canu clodydd y fwydlen lysieuol yn arbennig. Gwelsom fod prydau amser cinio wedi'u cyflwyno'n dda ac roeddent yn arogli'n flasus. Gwelsom fod y bobl yn cael dewis ble i fwyta'u prydau. Clywsom sylwadau yn cynnwys "*you couldn't get better than that*" a "*this is a really good cawl*." Gwelsom fod gan y cartref y sgôr hylendid bwyd uchaf,

sef pump (da iawn). Cynigiwyd diodydd i'r bobl drwy gydol y dydd, ac yn ystod prydau bwyd. Rydym o'r farn y caiff anghenion maeth a hydradu'r bobl eu diwallu.

Mae systemau effeithiol ar waith i gefnogi'r bobl i reoli eu meddyginiaeth. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel, ac roedd cofnodion cywir ar gael er mwyn helpu i roi'r feddyginiaeth gywir.  Gwelsom fod y cofnodion rhoi meddyginiaeth wedi'u cwblhau gan gynnwys yr holl wybodaeth ofynnol ar gyfer pob unigolyn sy'n byw yn y cartref. Roedd gan bob unigolyn broffil meddyginiaeth ei hun a oedd yn cynnwys llun ohono ac unrhyw alergeddau. Gwnaethom edrych ar y matrics hyfforddiant a gwelsom yng nghofnodion hyfforddiant y staff bod hyfforddiant meddyginiaeth a gwiriadau cymhwysedd wedi'u cynnal. Mae'r staff wedi'u hyfforddi'n briodol ac maent yn gymwys, yn unol â pholisi meddyginiaeth y cartref gofal. Rydym o'r farn y caiff y bobl eu diogelu gan y systemau meddyginiaeth sydd ar waith ac y cânt eu cefnogi gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn unol â'r polisi.

Caiff y bobl ofal iechyd pan fo ei angen. Dangosodd y cofnodion a welwyd y ceir ymyriad amserol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo ei angen. Roedd hyn yn cynnwys nyrs ardal, triniaeth traed, hyfywedd meinwe, lymffoedema a chymorth meddyg teulu. Gwelsom fod cofnodion trylwyr yn cael eu cadw i fonitro newidiadau o ran iechyd y bobl, gan gynnwys monitro pwysau, iechyd y croen, a lefelau maeth a hydradu. Mae'r gwasanaeth hwn yn ceisio cynorthwyo'r bobl i gadw mor iach â phosibl.

## 3. Yr Amgylchedd

### Ein canfyddiadau

Caiff y bobl ofal mewn amgylchedd diogel. Gofynnwyd i ni ddangos ein cardiau adnabod a llofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd. Nodwyd nad oedd yr holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref yn mewngofnodi. Trafodwyd hyn â'r unigolyn cyfrifol ac roedd eisoes wedi'i nodi yn yr adolygiad blynyddol o ansawdd. Cadarnhawyd y byddai'r staff yn tanlinellu pwysigrwydd mewngofnodi gyda phob ymwelydd, gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Roedd archwiliadau diogelwch yn cael eu cynnal ar yr holl gyfarpar a ddefnyddir yn y cartref. Roedd y cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod problemau'n cael eu nodi a'u datrys yn gyflym. Gwelsom fod y cofnodlyfr tân yn gyfredol a bod cynlluniau personol y bobl ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEPs) ar gael yn hawdd. Roedd canllawiau wedi'u gosod ar hyd y coridorau. Roedd hylifau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel yn unol â rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd. Rydym o'r farn bod y bobl yn cael cymorth i fyw mewn cartref sydd, hyd eithaf ei allu, wedi nodi risgiau posibl ac wedi cymryd camau i'w lliniaru.

Caiff llesiant y bobl ei gefnogi a'i hyrwyddo gan safon uchel yr amgylchedd. Mae'r cartref wedi'i addurno mewn ffordd gartrefol a thraddodiadol, a dyna'r naws sy'n cael ei greu yma. Mae'r cartref wedi'i leoli ar gyrion Drefach ac mae'n rhan bwysig o'r gymuned. Mae'r llety'n darparu dewis o ardaloedd tawel neu gymunedol i'r bobl eu defnyddio. Ceir dwy lolfa ac ardal fwyta â seddi ar wahân. Mae'r seddi wedi'u trefnu mewn ffordd sy'n galluogi'r bobl i gael sgwrs breifat a chyfarfod â theulu a ffrindiau. Gellir defnyddio iard/ardal batio o faint da, gyda photiau planhigion a gynhelir gan y bobl a'u perthnasau. Ceir ardal awyr agored fawr yng nghefn yr eiddo ac ystyrir sut i wneud yr ardal hon yn fwy hygyrch ar hyn o bryd. Mae'r cartref yn lân, wedi'i addurno'n dda ac yn cynnig amgylchedd cartrefol i'r bobl fyw ynddo a'i fwynhau. Roedd yr ystafelloedd wedi'u personoli â ffotograffau, dodrefn ac addurniadau a ddewiswyd gan y bobl. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hoffi eu hystafelloedd gwely "*I like it, I have everything to hand, I like being here.*" Felly, rydym o'r farn bod y bobl yn gallu mwynhau'r cyfleusterau y mae'r cartref yn eu cynnig, a'u bod yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartref glân, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac sy'n cynnig ymdeimlad o gartref.

## 4. Arwain a Rheoli

### Ein canfyddiadau

Gall y bobl fod yn sicr bod trefniadau goruchwylio a llywodraethu yn gadarn. Mae darparwr y gwasanaeth wedi paratoi datganiad o ddiben a oedd yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Cawsom olwg ar rifyn 2019 o'r datganiad o ddiben a gwelsom ei fod yn gywir, yn gyfredol ac yn cyd-fynd â'r gofynion a nodir yn y rheoliadau. Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg, fel sy'n wir am y canllaw i breswylwyr. Gwelsom fod y model gofal sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd yn ystod yr arolygiad yn gywir. Daeth hyn i'r amlwg wrth fwrw golwg dros gynlluniau personol y bobl, trafod gofal a chymorth y bobl â nhw a thrafodaethau â'r staff gofal. Gwnaethom ddarllen yr adroddiad sicrhau ansawdd diweddaraf a gwelsom fod y bobl yn cael cyfle i drafod eu cymorth a rhoi adborth ar y gwasanaeth a gafwyd. Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad yn cynnwys holiaduron. Roedd yr holl ymatebion yn gadarnhaol, gan gynnwys "*staff are warm and courteous*" a "*managers are excellent and responsive*". Gwelwyd bod unrhyw bwyntiau gweithredu yn cael eu llunio a bod cynnydd yn cael ei fonitro. Roedd polisïau a gweithdrefnau'n gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Rydym o'r farn bod y bobl yn cael budd o wasanaeth sydd yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben ac yn ceisio arwain y gwaith o wella'n barhaus.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o ansawdd uchel gan wasanaeth sy'n gosod safon uchel iddo'i hun. Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol ac roedd yn glir ei bod yn weithgar iawn yn y cartref. Cadarnhawyd hyn hefyd gan y dirprwy reolwr, y staff a'r perthnasau/cynrychiolwyr y bobl a oedd yn derbyn gwasanaeth, a wnaeth ganmol ymwneud ac agwedd ofalgar yr unigolyn cyfrifol, "*you can see the joy she gets of doing a good job.*" Down i'r casgliad fod y bobl yn cael gofal da gan wasanaeth sy'n ymrwymedig i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl.

Mae'r staff yn cael eu hyfforddi a'u datblygu i gyflawni eu rolau. Gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth sefydlu staff a oedd yn dangos bod y staff yn gymwys i gyflawni eu rolau ac i ymarfer. Cefnogir hyfforddiant gan rôl rheolwr hyfforddi a'r matrics hyfforddiant cyfrifiadurol sy'n golygu ei bod yn hawdd nodi pan fo angen ei ddiweddaru. Cynhelir cofnod o hyfforddiant staff unigol. Mae nifer o'r staff wedi ennill cymhwyster cydnabyddedig mewn gofal. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn mwynhau cael hyfforddiant ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Caiff y staff eu goruchwylio'n unigol gan uwch-aelodau o'r staff. Cânt arfarniad blynyddol. Cynhelir cyfarfodydd staff i hysbysu a diweddaru'r staff. Nodwyd bod y bobl yn cael budd o staff sydd wedi'u hyfforddi a'u cefnogi i gyflawni dyletswyddau. Mae gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gyflawni eu dyletswyddau.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Dim

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y dylid gwneud y canlynol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cefnogi llesiant y bobl sydd wedi dewis ymgartrefu ym Maes-y-Felin ymhellach:

- I weld y canllawiau *https://llyw.cymru/canllawiau-bwyd-maeth-ar-gyfer-pobl-hyn-mewn-cartrefi-gofal-canllawiau-cyflawn.*

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Gwnaethom gynnal arolygiad llawn, dirybudd o'r gwasanaeth, gan ystyried y pedair thema. Gwnaethom ymweld â'r cartref ar 17 Ionawr rhwng 8.50am a 2.30pm. Ystyriwyd y rheoliadau canlynol fel rhan o'r arolygiad hwn:

- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr arolygiad hwn yn cynnwys y canlynol: Yn ystod yr arolygiad gwnaethom siarad â'r canlynol:

- Tri unigolyn.
- Dau berthynas.
- Pedwar aelod o'r staff.
- Yr unigolyn cyfrifol a'r dirprwy reolwr.

Gwnaethom edrych ar y canlynol:

- Cofnodion gofal pedwar person sy'n byw yn y cartref.
- Ffeiliau pedwar aelod o'r staff.
- Cofnodion diogelwch tân.
- Adolygiad o ansawdd gofal yr unigolyn cyfrifol.
- Y datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Hefyd, gwnaethom y canlynol:

- Mynd o amgylch y safle.
- Arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr y Gwasanaeth** | **Maes-y-felin Care Home LTD** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Nalini Parmar** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **19** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **18 Ebrill a 3 Mai 2018** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **17 Ionawr 2020** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. Roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod y gwasanaeth yn darparu dogfennaeth ddwyieithog, arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r cartref, clywsom sgyrsiau yn Gymraeg drwy gydol ein harolygiad a chaiff diwylliant Cymru ei hyrwyddo a'i barchu.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/03/2020